

PRIFYSGOL BANGOR**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

Cyfarfod: 6 Chwefror 2013

Preseanol: Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr D Fordham, Mr W Jones, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Mr J Patton, Mr D Roberts, Mr E Roberts, Dr G Roberts, Dr H Roberts, Mr S Roberts, yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Dr G Clarke, Mr R Dart, Mr H Ellis, Ms L Fowlie, Ms E Riches, Dr D M Roberts, Mr I Salisbury, Dr L Shelley, yr Athro P Spencer, Dr T Woodman.

410. COFNODION

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2012 wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

411. MATERION YN CODI

- a) Croesawodd y Cadeirydd Dr Huw Roberts a'r Athro Carol Tully.
- b) Diolchodd y Cadeirydd i John East a ymddeolodd yn Rhagfyr 2012. Diolchwyd am gyfraniad John tuag at iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr a oedd yn gweithio yn y Brifysgol.
- c) Cofnoda 401 (b) Cymorth i'r rheiny sy'n Dychwelyd i'r Gwaith:
Nodwyd bod erthygl wedi'i chyhoeddi ynglŷn â rhannu gwaith Ymarferwyr Iechyd Galwedigaethol meddygon teulu lleol a chynrychiolwyr o Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng nghyswllt eu cefnogaeth a'u mentrau o ran dychwelyd i'r gwaith.
- d) Cofnod 401 (c) Adroddiad ar Ddigwyddiad *E.coli*:
Mae angen eglurhad o hyd ynglŷn â pha Awdurdod Rheoleiddio sydd â chyfrifoldeb arolygol dros glefydau heintus a rheoli heintiau yn y Feithrinfa.

412. ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH – YMBELYDREDD

Cyfarfu'r Is-Bwyllgor ar 22 Ionawr 2013 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd (RPA):* Ni chododd yr Ymgynghorydd ond mân bwyntiau yn ystod ei ddau ymweliad yn 2012. Mae'r holl eitemau wedi cael sylw.
- ii. *Stociau heb eu Defnyddio:* Oherwydd y gwaith i leihau maint y stociau a gedwir gan y Brifysgol, cafwyd 70% o leihad mewn daliadau.
- iii. *Cynllun Rheolaeth:* Diweddarwyd y wybodaeth ynglŷn â llwybrau gwaredu gwastraff ar gyfer y gwahanol isotopau.
- iv. *Dosimetreg Bersonol:* Erbyn hyn, bathodynau ddeufisol a ddefnyddir gan weithwyr ³²P, ar yr amod nad yw gweithgaredd ar stoc sylfaenol yn mynd yn uwch na 18.5 MBq.
- v. *Wrecsam – Ysgol Radiograffeg:* Roedd Ymgynghorydd y Brifysgol wedi ymweld â'r cyfleuster pelydr-X a oedd newydd ei gomisiynu, ei archwilio a mesur dosau

gwasgarog yno.

- vi. *Arolwg Radon*: Dangosodd canlyniadau radon yng nghyswllt arolygon o fewn dwy ardal arall fod lefelau radon o fewn canllawiau a argymhellir. Disgwylir am fwy o ganlyniadau ar gyfer un lleoliad, i gadarnhau effeithiolrwydd gwaith adferol a wnaethpwyd yn ddiweddar.
- vii. *Hyfforddi Gweithwyr DEXA*: Nodwyd bod yr Is-Bwyllgor wedi dod i'r casgliad na ddylid defnyddio gwirfoddolwyr wrth hyfforddi gweithwyr ynglŷn â sut i ddefnyddio'r sganwr DEXA. Ystyriodd y Pwyllgor waith yr Is-Bwyllgor a chefnogi ei benderfyniad i beidio â defnyddio gwirfoddolwyr fel gwrthrychau wrth hyfforddi Gweithwyr DEXA.

413. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH – CEMEGOL A BIOLEGOL

Cyfarfu'r Is-Bwyllgor ar 30 Ionawr 2013 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Nadredd Gwennyngig*: Mewn ymateb i fethiant y Brifysgol i brynu ei stociau ei hun o wrthwenwyn, mae'r nadredd mwyaf peryglus wedi cael eu hail-gartrefu a'r staff allweddol wedi cael hyfforddiant Epi Pen ar sut i ymdrin â sioc anaffylactig. Mae gwaith ar droed ar fwy o ddatblygiad ar ddulliau lliniaru, ac ar gadarnhau bod stociau priodol ar gael neu bod modd eu cael trwy'r ganolfan arbenigol yn Lerpwl.
- ii. *Gofynion o ran Diogelwch Pathogenau a Thocsinau*: Mae cronfa ddata ar lein wedi'i llunio, yn rhestru'r holl asiantau a deunyddiau cemegol arbenigol sydd angen eu cofrestru a'u hawdurdodi. Bydd yn ofynnol i bob Coleg ddatgan, o leiaf yn flynyddol, beth sydd wedi'i gadw a heb ei gadw.
- iii. *Pnyllgor Lleol ar Drin Genynnol*: Mae'r Pwyllgor Trin Genynnol yn cynnwys arbenigwyr o nifer o feysydd (e.e. biolegwyr planhigion) ac aelodau lleyg, ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau ar Organebau sydd wedi'u Haddasu'n Enynnol (Defnydd Cyfyngedig), sy'n pennu dulliau rheoli er mwyn gwarchod pobl a'r amgylchedd. Mae'r Pwyllgor hwn yn cadarnhau bod yr holl waith cofrestredig yn y Brifysgol yn digwydd yn unol â gofynion statudol, ac yr adolygir projectau yn flynyddol.

414. GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod bum gwaith ers y cyfarfod diwethaf, ac wedi bod yn gysylltiedig â nifer o feysydd, yn cynnwys Rheoli Ysmygu a'r Aseiad Risg Corfforaethol ar Iechyd a Diogelwch. Nodwyd hefyd fod y Brifysgol yn ddiweddar wedi ennill *TAlTH*, sef grant y Grŵp Teithio Cynaliadwy tuag at wella cyfleusterau seiclo ac iechyd corfforol y Brifysgol, gyda'r bwriad yn y pen draw o leihau nifer y siwrneiau mewn ceir. Mae'r gwaith hen yn cynnwys hyrwyddiad iechyd Teithio'r Byd, yn cychwyn ar 1 Mawrth, mewn cystadleuaeth yn erbyn Prifysgol Aberystwyth, a fydd yn annog staff a myfyrwyr i gofnodi pellteroedd y maent yn eu cerdded a'u seiclo.

414.1 Polisi Diwygiedig ar Deithio Tramor

Cyflwynwyd crynodeb o'r diwygiadau a awgrymir i'r Polisi ar Deithio Tramor, a dilynodd trafodaeth ar weithgareddau ymchwil a gwaith a wneir yn y wlad gartref, lle roedd cyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar gyfyngiadau ar deithio yn berthnasol.

Nodwyd nad yw cyngor y Swyddfa honno'n berthnasol ond i ddinasyddion y DU, ac nad yw wedi'i fwriadu fel cyngor ar gyfer dinasyddion o wledydd tramor sy'n dychwelyd i'w gwledydd neu eu rhanbarthau cartref.

Cymeradwywyd y newid i'r polisi a'r drefn ategol ar gymeradwyo yswiriant ar-lein, yn amodol ar gynnwys mwy o gyfeiriad at y drefn Cymeradwyo Moesegol.

415. ADRODDIAD IECHYD

Cyflwynwyd y crynodeb isod o'r rhaglen gweithgareddau iechyd:

- i. *Hyfforddiant*: Cynhaliwyd nifer o gyrsiau ar Anaffylacsis a Diffibrilwyr. Mae gwaith hefyd ar droed ar wella technegau trin diogel ar gyfer staff sy'n 'trin eitemau' yn rheolaidd fel rhan o'u swyddogaeth. Mae hyn yn cynnwys ymweld â chyflenwydd 'cymhorthion trin' lleol, gyda darpariaeth o hyfforddiant ar y rhain.
- ii. *Archwiliadau Iechyd*: Bu 80% o'r staff newydd yn bresennol yn yr archwiliadau iechyd newydd ar gyfer y staff sy'n dechrau, a gynigir yn awr yn lle sgrinio cyn cyflogaeth, nad yw mwyach yn ofynnol. Parhau y mae'r rhaglen archwiliadau iechyd i staff sy'n gwneud gwaith penodol.
- iii. *Cefnogaeth yn achos Afiechyd*: Mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi cael gwahoddiad i annerch Pwyllgor Meddygol Ynys Môn ym Mehefin ynglŷn â'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag Adnoddau Dynol a meddygon teulu lleol i gynorthwyo staff sy'n absennol dros dymor hir oherwydd salwch.
- iv. *Tŷ Gobaith*: Cododd yr abseil diweddar £900. Mae'r Her Colli Pwysau hefyd wedi dechrau, a fydd yn codi mwy o arian ar gyfer yr elusen.
- v. *Iechyd Meddwl*: Cafodd y Cwrs peilot mewn Ymwybyddiaeth o Straen dderbyniad cadarnhaol, a chynigir ef yn awr i eraill ar draws y Brifysgol.
- vi. *Asesiadau Risg Mamolaeth (staff)*: Parheir i gynnig cymorth i famau newydd a phrofiadol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â'r mamau bob 6 wythnos, gan addasu, gan addasu eu gwaith/ eu hamgylchedd gwaith yn ôl yr angen.
- vii. *Agenda Iechyd*: Mae'r Cynorthwy-ydd Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau ei MSc mewn Hybu Iechyd, a bydd yn awr yn cymryd yr awenau yn y maes hwn.
- viii. *Cefnogaeth Adrannol*: Cwblhawyd astudiaeth a rhaglen fanwl yn ymchwilio i ddulliau o reoli ynglŷn â thrin a dulliau ergonomig o fewn y Gwasanaethau Masnachol.

416. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD

Cyflwynwyd arolwg ar weithgareddau cyfredol yr Adran Ystadau a Chyfleusterau, a nodwyd y canlynol:

- i. *Cynnal*: Mae Cofrestr Cynigion a Risg 2012/13 wedi'i chwblhau. Mae'r ddogfen hon yn asesu a blaenoriaethu gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ystadau, gan roi ystyriaeth i risgiau o ran iechyd a diogelwch, parhad busnesau a phrofiad myfyrwyr.
- ii. *Strategaeth Ystadau*: Cyflwynwyd crynodeb o'r Strategaeth, a nodwyd y bydd y gwaith yn cynnwys rhoi sylw i waith cynnal sydd wedi hir-hel, gwaith dymchwel, a gwaith ailwampio ar raddfa fawr ar rai adeiladau o eiddo'r Brifysgol.
- iii. *Pontio*: Cychwynnodd gwaith ar 8 Medi 2012, a bwriedir cwblhau'r project tua dechrau haf 2014. Mae Miller Construction, sef Prif Gontractwr y safle, wrthi'n gweithio mewn cysylltiad agos â'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys cyflogi cyflenwyr lleol a hwyluso'r ffordd i fyfyrwyr Colegau lleol ymweld â'r safle.
- iv. *Contractwyr*: Mae'r defnydd ar gontractwyr wrthi'n cael ei arolygu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys nodi lle gall staff Ystadau a Chyfleusterau wneud gwaith yn lle hynny, a'r posibilrwydd o greu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau o fewn yr Adran.
- v. *Hygyrchedd*: Mae Gweithgor Pontio – Hygyrchedd Corfforol yn parhau i gyfarfod er mwyn sicrhau y caiff materion cysylltiedig â hygyrchedd eu nodi ac y cânt sylw yn yr adeilad newydd. Ar ben hynny, edrychir ar gyfleoedd i wella hygyrchedd ar draws ystâd y Brifysgol yn gyffredinol.

417. UNRHYW FATERION ERAILL

Nodwyd yr eitemau isod:

- i. Trafodwyd amledd y cyfarfodydd. Cytunwyd i gynnal cyfarfod ym mis Tachwedd a mis Mai, ac i beidio â defnyddio'r dyddiad ym mis Chwefror oni bai fod angen amlwg i gynnal cyfarfod.
- ii. Diolchwyd i'r Adran Adnoddau Dynol am ei hymdrechion i ymdrin â straen cysylltiedig â gwaith. Roedd hyn wedi cynnwys hwyluso'r Arolwg Straen ar Staff a lansiad Gwefan Straen, Polisi ar Straen a rhaglen Sgyrsiau ar gyfer staff.
- iii. Enillodd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-Orllewin Cymru (NWWHSG) Wobr Arian y DU ar gyfer Grwpiau Diogelwch, i gydnabod ei gefnogaeth o weithwyr a sefydliadau ar draws Gogledd Cymru o ran sicrhau bod gweithleoedd yn iach ac yn ddiogel i bawb. Cynhelir Cynhadledd nesaf NWWHSG ddydd Gwener 13 Medi.
- iv. *Diogelwch Trydanol*: Mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg dealltwriaeth rhai myfyrwyr ynglŷn â diogelwch trydanol a'r gofynion tra oeddent yn astudio ac yn byw yn y Brifysgol. Wedi trafodaeth, cytunwyd y dylid ystyried 'Amnest Neuaddau', fel y gallai myfyrwyr mewn Neuaddau ddod â'u cyfarpar trydanol ar gyfer prawf PAT, cael addasyddion trydanol priodol ayyb.